Ken Skates AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Reckless AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

28 Mawrth 2017

Annwyl Mark

Diolch am eich llythyr dyddiedig 31 Ionawr am gyfarfod y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ynghylch ansawdd aer yng Nghymru.

Mae'r atodiad sydd wedi'i amgáu yn nodi'r camau gweithredu a gymerir o fewn fy mhortffolio i fonitro ac i liniaru effeithiau ansawdd aer.

Yn gywir,

Ken Skates AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@gov.wales

Camau Gweithredu Portffolio'r Economi a'r Seilwaith o ran ansawdd aer

Trafnidiaeth

Ffyrdd

Nid yw Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am safonau allyriadau o gerbydau yng Nghymru. Gosodir y rhain ar gyfer y DU gyfan gan Lywodraeth y DU.

Nid ydym yn monitro ansawdd aer yn rheolaidd, er bod gwaith monitro penodol yn cael ei gynnal mewn perthynas â diogelwch twnelau ffyrdd ac er mwyn llywio penderfyniadau fel y disgrifir isod.

Mae'r modd yr ymdrinnir â materion sy'n ymwneud ag ansawdd aer ym mhrosiectau seilwaith ffyrdd Llywodraeth Cymru'n cael ei yrru gan nifer o brosesau sydd wedi'u hen sefydlu. Mae'r rhain yn ystyried ansawdd aer ochr yn ochr ag ystyriaethau amgylcheddol eraill ynghyd ag ystyriaethau nad ydynt yn rhai amgylcheddol. Mae'r prosesau hyn yn ymdrin â'r llygryddion a ganlyn: llwch, gronynnau (PM_{10}), NO_x a Nitrogen Deuocsid (NO_2).

Mae'r prosesau hyn yn gweithredu yng nghyd-destun Canllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) a Chanllawiau'r Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd. Mae'r canllawiau olaf yn bodloni'r gofynion ar gyfer Asesu Effaith Amgylcheddol o dan Reoliadau Priffyrdd (Asesu Effaith Amgylcheddol) 2007.

Mae WelTAG yn galluogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ystyried goblygiadau ansawdd aer o gamau cynnar datblygu prosiect, yn nhermau cyfiawnhad dros ymyrryd ac o ran archwilio dewisiadau posibl y gellid eu datblygu. Mae hefyd yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu amcanion ar gyfer y prosiect sy'n gallu cynnwys amcanion ar gyfer ansawdd aer, os oes rheswm dros hynny.

Mae'r broses Asesu Effaith Amgylcheddol yn galluogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ystyried arwyddocâd effeithiau ansawdd aer, yn ystod cyfnod adeiladu'r prosiect a phan fo'n weithredol, ochr yn ochr â materion amgylcheddol eraill.

Fel rhan o'r broses Asesu Effaith Amgylcheddol, defnyddir canlyniadau o nifer o ffynonellau monitro sydd eisoes yn bod, fel rhwydweithiau monitro awdurdodau lleol, ynghyd â gwaith monitro pwrpasol a gynlluniwyd i sicrhau bod asesiad cywir a chymesur yn cael ei gynnal o'r cynllun.

Tra bo'r prosiect yn cael ei adeiladu, cynhelir gwaith monitro i ymdrin â goblygiadau llygredd llwch a llygryddion eraill, pan fo hynny'n berthnasol. Ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu, mae llygryddion yn cael eu monitro pan fod angen gwneud hynny.

Rhaid i gamau lliniaru ar gyfer ansawdd aer mewn cynlluniau unigol gael eu teilwra'n bwrpasol ar gyfer cyd-destun y cynllun, effeithiolrwydd y mesurau a'r costau a ddaw yn eu sgil.

Mewn rhai achosion, er enghraifft Ffordd Osgoi'r Drenewydd A483/A489 ac, os bwrir ymlaen â'r cynllun, coridor yr M4 o gwmpas Casnewydd, mae darparu seilwaith newydd yn tynnu trafnidiaeth oddi ar ffyrdd presennol ac yn gallu lleihau llygredd aer yn sylweddol. Cymerir gofal i sicrhau nad yw newid y llwybr yn achosi problemau diangen ar y llwybr newydd.

Yn yr un modd, yn ystod y gwaith adeiladu, cynhelir prosesau i sicrhau bod effaith y gwaith ar bobl a phroblemau eraill yn deillio o'r llwch yn cael eu lleihau i'r eithaf.

Bysiau

Mae cymelliadau i annog bysiau gwyrddach ar gael drwy Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau Llywodraeth Cymru. Mae awdurdodau lleol a chwmnïau bysiau yng Nghymru hefyd yn gymwys i wneud ceisiadau am grantiau'r Adran Drafnidiaeth i wneud eu fflydoedd yn rhai gwyrdd.

Rheilffyrdd

Drwy'r broses o gaffael gwasanaethau rheilffyrdd Cymru a'r Gororau a Metro De Cymru, rydym yn ei gwneud yn ofynnol i geiswyr wneud trefniadau i wella effeithlonrwydd amgylcheddol ar draws y fasnachfraint. Bydd y contract newydd yn darparu mwy o le i deithwyr presennol ac ar gyfer twf a ragwelir yn nifer y teithwyr.

Bydd Cam 2 y Metro yn darparu dwy fantais benodol:

1. Cael gwared ar drenau sy'n rhedeg ar diesel yn unig. Trwy wneud hynny bydd y cerbydau'n creu llai o allyriadau diesel ac allyriadau cysylltiedig; a

2. Newid y modd o deithio o geir i drafnidiaeth gyhoeddus oherwydd bod gwasanaethau cyflymach ac amlach ar gael.

Bydd yr Asesiad Amgylcheddol Strategol ar gyfer y Metro a'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer Rheilffyrdd Craidd y Cymoedd sy'n digwydd ar hyn o bryd ill dau'n ymchwilio i effaith newidiadau posibl ar Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer o ganlyniad i gyflwyno cerbydau sy'n fwy deniadol, yn lanach ac yn fwy effeithlon o ran ynni. Mae camau pellach y Metro yn y dyfodol yn cael eu cynllunio ar y stryd o gwmpas canol dinas Caerdydd, gan gynnig gwell mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus i rai o'r Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer tlotaf a mwyaf poblog.

Aer

Mae ansawdd aer teithiau awyrennau'n parhau i fod yn gyfrifoldeb gweithredwyr meysydd glanio a chwmnïau hedfan. Ym maes seilwaith, mae meysydd glanio'n cynnal mentrau gwella ansawdd aer sy'n cydweddu a'r modd y maent yn gweithredu, ond heb gynnwys gweithgareddau eraill. Drwy gydweithio gyda defnyddwyr meysydd glanio (cwmnïau hedfan), gellir defnyddio llwybrau hedfan mwy effeithlon i helpu ansawdd yr aer.

Cafodd cwmni Cardiff International Airport wobr am Fenter Amgylcheddol oddi wrth y Gymdeithas Gweithredwyr Meysydd Awyr yn 2015 am amrywiaeth o weithgareddau yr oedd wedi ymgymryd â nhw.

Teithio gan Ddysgwyr

Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yng Nghymru ynghylch teithio gan ddysgwyr yn cydnabod pwysigrwydd cael dulliau teithio cynaliadwy. Mae adran 11 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 ('y Mesur') yn gosod dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i hybu dulliau teithio cynaliadwy, a diffinnir y rhain fel dulliau a all wella llesiant corfforol y rhai sy'n eu defnyddio a /neu a all wella llesiant yr amgylchedd yn yr ardal leol.

Mae adran 2 o'r Mesur yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i gynnal asesiad risg ar y llwybrau a ddefnyddir i gerdded i'r ysgol. Mae'r ddarpariaeth hon yn sicrhau bod llwybrau yn cael eu darparu ar gyfer cerdded i'r ysgol ac mae hyn yn ei dro yn hybu cerdded a seiclo ymhlith dysgwyr. Mae hyn yn cyfrannu at leihau tagfeydd ac at leihau'r ôl troed carbon.

Mae Canllawiau ar Ddarpariaethau Statudol Teithio gan Ddysgwyr a Chanllawiau Gweithredol 2014 Llywodraeth Cymru'n cynghori awdurdodau lleol i annog dysgwyr i gerdded i'r ysgol gydag oedolion, ffrindiau neu mewn grwpiau (bysiau cerdded). Mae'n eu cynghori hefyd i ddarparu hyfforddiant Kerbcraft i ddysgwyr.

Mae Deddf Teithio Llesol 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wella cyfleusterau a llwybrau i gerddwyr a seiclwyr yn barhaus drwy nodi llwybrau y gellir eu defnyddio a hybu mynediad atynt. Mae'n bosibl y gallai'r rhain gynnwys llwybrau i ysgolion.

Ar y cyfan, mae dysgwyr sy'n cael cludiant am ddim rhwng yr ysgol a'r cartref yn teithio ar fws ac mae hyn yn golygu bod llawer llai o gerbydau preifat ar y ffyrdd yn cludo plant yn ôl a blaen i ysgolion, gan leihau tagfeydd a llygredd.

Cerbydau Carbon Isel

Rydym wedi ymrwymo i ymchwilio i gyfleoedd i leihau allyriadau sy'n deillio o drafnidiaeth ac i gynyddu cyfleoedd y sector cerbydau carbon isel i dyfu ac i greu swyddi yng Nghymru i'r eithaf. Rydym yn ystyried argymhellion y Grŵp Llywio Arbenigol ar Gerbydau Carbon Isel yng nghyd-destun ehangach ein dyletswyddau datgarboneiddio o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru).

Yr Economi

Mae timau ein sectorau economaidd wedi cymryd rhan mewn gweithdai a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru i edrych ar sut y gall y sectorau chwarae rhan yn y dasg o leihau allyriadau carbon Cymru'n unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Er enghraifft, mae gan y sector TGCh ran allweddol i chwarae ac ystyried twf yr Economi Ddigidol. Mae cael mynediad at dechnoleg ddiogel a dibynadwy yn galluogi pobl i weithio'n fwy hyblyg gan leihau'r angen i deithio i'r gwaith. Mae hyn yn cyfrannu at leihau allyriadau carbon ac at wella ansawdd yr aer.

Y Comisiwn Seilwaith

Yn ddiweddar cynhaliwyd ymgynghoriad gennym ynghylch sefydlu Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol yn ddiweddarach eleni, ar ôl cynnal ymarfer penodiadau cyhoeddus llawn. Rydym yn dadansoddi'r ymatebion ar hyn o bryd.

Roedd yr ymgynghoriad wedi ei gwneud yn eglur y byddai cylch gwaith y comisiwn yn cynnwys cynghori Gweinidogion Cymru ar anghenion seilwaith strategol yn y tymor hwy yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r ymatebion a ddadansoddwyd hyd yma yn cefnogi'r agwedd hon yn gryf. Rydw i'n disgwyl y bydd hyn yn darparu cyd-destun i'r comisiwn o ran ystyried materion yn ymwneud ag ansawdd aer wrth roi cyngor.